Rhan allweddol o rôl Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yw gosod y praesept blynyddol, sef y darn hwnnw o Dreth y Cyngor sy'n talu am blismona. Mae'r lefel rwyf yn gosod y praesept yn penderfynu cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru. Daw hanner yr arian ar gyfer plismona o Dreth y Cyngor gyda'r gweddill yn dod o Lywodraeth y DU drwy'r Swyddfa Gartref.

Bydd hwn yn golygu y bydd cynnydd o 32c yr wythnos (neu £16.56 y flwyddyn) yn y Dreth Cyngor am eiddo Band D ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. O ran canran, mae hyn yn golygu cynnydd o 4.97% ar y llynedd ac mae'r swm a gytunwyd arno yn effeithiol o 1 Ebrill 2024.

Cynhaliwyd arolwg cyhoeddus gyda thrigolion a pherchnogion busnes o Ogledd Cymru dros bron i chwe wythnos o 27 Tachwedd 2023 i 7 Ionawr 2024. Roedd yn cynnwys dros 1,500 o ymatebion - roedd hyn dros 50% yn fwy na'r nifer a gymerodd ran llynedd. Roedd dros hanner y bobl wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg ar y praesept yn cefnogi cynnydd o leiaf £17.50 yn y Dreth Cyngor. Mae hyn yn golygu fod y ffigwr £16.56 yn sylweddol is na'r swm a welwyd yn dderbyniol gan y trigolion a wnaeth gymryd rhan.

Roedd dros hanner y bobl wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg ar y praesept yn cefnogi cynnydd o leiaf £17.50 yn y Dreth Cyngor. Mae hyn yn golygu fod y ffigwr £16.56 yn sylweddol is na'r swm a welwyd yn dderbyniol gan y trigolion a wnaeth gymryd rhan.

Gydag unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor, dylai perfformiad yr heddlu fod yn rhywbeth a ddylid cael ei fesur i sicrhau gwerth am arian i'r rhai sy'n talu. Mae'r Arolwg Troseddau ar gyfer Cymru a Lloegr yn dangos bod gan 77% o'r bobl hyder yn heddlu Gogledd Cymru a'r ffordd y mae'r ardal yn cael ei blismona. Roedd hyn yn fwy nag unrhyw wasanaeth heddlu arall yng Nghymru a Lloegr.

Gwnaeth yr heddlu hefyd gyflawni'r ail ganran uchaf yn genedlaethol ar gyfer y rhai hynny a oedd yn cytuno y byddai'r heddlu'n eu trin nhw â pharch (86.5%). Mae hyn yn ategu data pellach a ddangosodd fod yr heddlu'n dal gyda'r ail ffigwr isaf yn genedlaethol am gyfraddau trosedd cymdogaethau am bob 1000 o'r boblogaeth. Mae cyfraddau byrgleriaethau preswyl i lawr 6% o un flwyddyn i'r llall. Mae achosion cofnodedig o droseddau cerbydau wedi gostwng hefyd 4.6% o un flwyddyn i'r llall. Mae amserlenni ymchwiliadau wedi gostwng 39.6% ar gyfartaledd hefyd.

Tra ein bod ni'n gwerthfawrogi'r angen am gyllid digonol i gynnal gwasanaeth heddlu, mae'r penderfyniad o gwmpas y cynnydd yn cymryd i ystyriaeth y pwysau economaidd mae nifer yn ei ddioddef. Dalier sylw, ers 2010 hyd yma, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud arbedion sy'n gyfanswm o £42.799m fel modd o gyflenwi plismona cost-effeithiol ar gyfer pobl. Mae'r heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn benderfynol o barhau i roi gwasanaeth sy'n cynnig gwerth am arian ar gyfer trigolion ac yn cadw Gogledd Cymru yn le diogel ar gyfer pawb sy'n byw, gweithio neu ymweld â'r ardal.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Faint o'ch arian treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona?

Mae naw band treth cyngor yng Ngogledd Cymru, sydd wedi'u seilio ar werth cyfalaf yr eiddo yn 2003.

Band D yw'r dull Cenedlaethol o gymharu lefelau treth. Dim ond £349.65 o fil treth cyngor Band D sy'n cael ei glustnodi ar gyfer ariannu Gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru, fel y cytunwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Felly, yn dibynnu ar Fand eich eiddo chi, dyma faint o'ch bil treth cyngor fydd yn cael ei roi tuag at wasanaeth yr heddlu yng Ngogledd Cymru:

Band A	£233.10
Band B	£271.95
Band C	£310.80
Band D	£349.65
Band E	£427.35
Band F	£505.05
Band G	£582.75
Band H	£699.30
Band I	£815.85

Cymharu lefel y Gyllideb Refeniw â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Gan ddefnyddio fformiwla a luniwyd ar gyfer pob Heddlu yng Nghymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref wedi cyflwyno "safon gwariant" a elwir yn Asesiad Gwariant Safonol (AGS) a Grant yr Heddlu o £144.399m ar gyfer 2024-2025. Dyma yw asesiad y Llywodraeth o'r hyn y bydd angen i'r Comisiynydd ei wario er mwyn darparu'r un lefel o wasanaeth a chomisiynwyr eraill yng Nghymru os ydynt hwythau hefyd yn gwario yn unol â chyfanswm eu AGS a'u Grant Heddlu eu hunain.

Mae gan y Comisiynydd hawl i wario mwy na chyfanswm yr AGS a'r Grant Heddlu, gyda'r gwahaniaeth yn cael ei ariannu gan y Dreth Cyngor neu o'r Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu ar ofyniad Cyllideb o £200.281m.

O ble mae'r arian yn dod?

46.94% - Grantiau Llywodraeth

53.06% - Treth Cyngor

Beth ydych yn ei gael am eich arian?

9.10% yn cael ei wario ar ddelio gyda'r cyhoedd

42.10% yn cael ei wario ar blismona lleol

26.40% yn cael ei wario ar ymchwiliadau

8.30% yn cael ei wario ar gyfiawnder troseddol

14.10% yn cael ei wario ar ymgyrchoedd arbenigol

Amcangyfrif o gronfeydd ariannol y Comisiynydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

2023-2024 £48.442 miliwn

2024-2025 £38.287 miliwn

Ble mae eich arian yn mynd?

Cyllideb 2023-2024

Gwariant – Cyflogau – Swyddogion Heddlu	£99.518 miliwn
Gwariant – Cyflogau – Staff yr Heddlu	£57.719 miliwn
Gwariant – Pensiynau	£3.728 miliwn
Gwariant – Costau Eraill Gweithwyr	£6.939 miliwn
Gwariant – Costau Rhedeg Eraill	£48.811 miliwn
Gwariant – Cyfraniad i Wariant Cyfalaf	£4.949 miliwn
Gwariant Refeniw Gros	**£221.664 miliwn**
Llai: Incwm	£32.705 miliwn
Gofynion y Gyllideb	**£188.959 miliwn**
Dull o Ariannu:	
Grant Penodol yr Heddlu	£49.864 miliwn
Grant Llawr	£22.517 miliwn
Grant Cymorth Refeniw	£16.107 miliwn
Cyfran o Drethi Annomestig	£0.227 miliwn
Cyfanswm Grantiau	**£88.715 miliwn**
Treth Cyngor	£100.244 miliwn
Cyfanswm y Cyllid	**£188.959 miliwn**

Cyllideb 2024-2025

Gwariant – Cyflogau – Swyddogion Heddlu	£109.652 miliwm
Gwariant – Cyflogau – Staff yr Heddlu	£61.123 miliwn
Gwariant – Pensiynau	£3.989 miliwn
Gwariant – Costau Eraill Gweithwyr	£7.336 miliwn
Gwariant – Costau Rhedeg Eraill	£50.238 miliwn
Gwariant – Cyfraniad i Wariant Cyfalaf	£5.999 miliwn
Gwariant Refeniw Gros	**£238.337 miliwn**
Llai: Incwm	£38.056 miliwn
Gofynion y Gyllideb	**£200.281 miliwn**
Dull o Ariannu:	
Grant Penodol yr Heddlu	£54.362 miliwn
Grant Llawr	£23.289 miliwn
Grant Cymorth Refeniw	£16.109 miliwn
Cyfran o Drethi Annomestig	£0.252 miliwn
Cyfanswm Grantiau	**£94.012 miliwn**
Treth Cyngor	£106.269 miliwn
Cyfanswm y Cyllid	**£200.281 miliwn**

Cyllideb 2024-2025	
Gwariant – Cyflogau – Swyddogion Heddlu	£360.78 fesul Band D
Gwariant – Cyflogau – Staff yr Heddlu	£201.11 fesul Band D
Gwariant – Pensiynau	£13.12 fesul Band D
Gwariant – Costau Eraill Gweithwyr	£24.14 fesul Band D
Gwariant – Costau Rhedeg Eraill	£165.29 fesul Band D
Gwariant – Cyfraniad i Wariant Cyfalaf	£19.74 fesul Band D
Gwariant Refeniw Gros	**£784.18 fesul Band D**
Llai: Incwm	£125.21 fesul Band D
Gofynion y Gyllideb	**£658.97 fesul Band D**
Dull o Ariannu:	
Grant Penodol yr Heddlu	£178.86 fesul Band D
Grant Llawr	£76.63 fesul Band D
Grant Cymorth Refeniw	£53.00 fesul Band D
Cyfran o Drethi Annomestig	£0.83 fesul Band D
Cyfanswm Grantiau	**£309.32 fesul Band D**
Treth Cyngor	£349.65 fesul Band D
Cyfanswm y Cyllid	**£658.97 fesul Band D**

Cyllideb Gyfalaf y Comisiynydd 2024-2025	
Gwariant Arfaethedig	
Cerbydau ac Offer	£3.071 miliwn
Gwaith Adeiladu	£8.588 miliwn
Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	£5.635 miliwn
Cyfanswm gwariant	**£17.294 miliwn**
Dull o ariannu:	
Grantiau Cyfalaf	£0.000 miliwn
Benthyca	£7.472 miliwn
Derbynebau Cyfalaf	£2.700 miliwn
Cyfraniad Refeniw a Balansau	£7.122 miliwn
Cyfanswm ariannu	**£17.294 miliwn**

Lle allwch chi gael mwy o fanylion?

Cysylltwch â:
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Glan y Don,
Bae Colwyn
LL29 8AW
Ffôn: 01492 805486
E-bost: OPCC@northwales.police.uk

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA 999

101

WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

@NorthWalesPCC

@schthgc_nwopcc

schthgc_nwopcc

www.northwales-pcc.gov.uk

Yn y daflen hon cewch ddadansoddiad sy'n dangos faint o'ch treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona a nodir yn fras ble mae eich arian yn mynd. Am wybodaeth bellach ynglŷn â chyllideb yr heddlu, ewch i wefan OPCC: www.northwales-pcc.gov.uk

BETH YW EICH BARN CHI?

Mae'r Comisiynydd yn atebol i'r bobl ledled Gogledd Cymru ac mae bob amser yn awyddus i glywed barn pawb am faterion
yn gysylltiedig â'r heddlu a throsedd. Os hoffech ddweud eich barn wrth y Comisiynydd, ffoniwch **01492 805486** neu
e-bostiwch: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**. Gallwch hefyd fynd i'n gwefan:
www.northwales-pcc.gov.uk

SUT I GYSYLLTU Â HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Gallwch gysylltu â swyddogion drwy wefan Heddlu Gogledd Cymru: **www.northwales.police.uk**
Neu gallwch ffonio'r rhif difrys **101** neu **0300 330 0101**. Mewn argyfwng yn unig, ffoniwch **999**.

PRINT BRAS. Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras. I gael copi am ddim, ffoniwch **01492 805486**.